# Pwyllgor Gwasanaethau Pobl

## 18 Medi 2024

**Yn Bresennol:** Cynghorydd D Clements, Cynghorydd C George, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Dr R Plummer a'r Cynghorydd V Thomas.

**Hefyd yn bresennol** : Joy Arkley (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), a Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd).

[Gadawodd y Cynghorydd M James y cyfarfod adeg ystyried adroddiad 01/24, Adroddiad ar Reoli Adnoddau Dynol. Ymunodd Dr R Plummer â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar adroddiad 02/24, Diweddariad ar Gefnogi a Datblygu Aelodau.]

(Cyfarfod Rhithiol: 1.00pm – 2:10pm)

**1. Ethol Cadeirydd**

Agorodd y Prif Weithredwr y cyfarfod gan ddweud mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law ar gyfer swydd y Cadeirydd, sef Mrs J James.

**Penderfynwyd** penodi Mrs J James yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod**.**

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill wedi dod i law, enwebodd y Cynghorydd D Clements ei hun ar gyfer swydd yr Is-Gadeirydd.

**Penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd D Clements yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod**.**

Yn absenoldeb Mrs J James, roedd y Cynghorydd D Clements wedi cadeirio gweddill y cyfarfod.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M Bowen, Mrs J James a'r Cynghorydd C Williams.

**4. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

**5. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 15 Mai 2024 a'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2024 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 Mai 2024 ac ar 17 Ebrill 2024.

**6. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Nododd yr Aelodau y log gweithredu.

**Nodwyd.**

**7. Adroddiad ar Reoli Adnoddau Dynol**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl adroddiad ar Reoli Adnoddau Dynol oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd, Adolygiad o'r Polisi Adnoddau Dynol, Absenoldeb Salwch, Hyrwyddwyr Lles, Data Hyfforddiant, Darpariaeth Hyfforddiant, Buddion i Staff Gwirfoddol, a Gwirfoddoli.

Nododd Aelod yr ystadegau 'Ymunwyr ac Ymadawyr' a holodd a oedd yr Awdurdod yn cynnal cyfweliadau ymadael. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl bod yr Awdurdod yn cynnig cyfweliadau ymadael ond ychydig iawn o unigolion sy'n dewis cymryd rhan. Cytunwyd i ychwanegu'r Polisi Cyfweliad Ymadael at y rhestr o'r polisïau i'w hadolygu.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys ystadegau ynghylch dosbarthiad ethnigrwydd o fewn yr Awdurdod, a holodd Aelod a oedd gan yr Awdurdod ddull wedi'i dargedu i ehangu demograffeg staff yr Awdurdod. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl bod y tîm yn bwriadu datblygu strategaeth recriwtio oedd yn ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r data hyfforddiant gan gynnwys canran y gweithwyr oedd wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol, a gofynnodd Aelod a oedd gan yr Awdurdod darged ar gyfer cwblhau'r hyfforddiant. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl bod yr Awdurdod yn anelu at gyflawni cyfradd cwblhau o 95% ar hyfforddiant gorfodol gan fod hyn yn ystyried elfennau megis absenoldeb salwch, a rhwystrau posibl megis y gallu i ddefnyddio offer TG.

**Nodwyd.**

**8. Cefnogi a Datblygu Aelodau**

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a gyflwynodd adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn ymwneud â chefnogi a datblygu Aelodau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ar y cynllun hyfforddi Aelodau a'r gweithgareddau hyfforddi yn y gorffennol, Sesiynau Hyfforddi Llywodraeth Cymru (LIC), presenoldeb Aelodau, sesiynau sefydlu, Adolygiadau o Ddatblygiad Personol, ac

arfarniadau perfformiad LIC, polisi teithio ar gyfer Aelodau, Fframwaith Hunanwerthuso Cymorth i Gynghorwyr Cymru, a Seminar Aelodau Cymru.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phresenoldeb yr Aelodau gan y dywedwyd bod presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddiant wedi bod yn 58%, yn erbyn targed o 65%. Holodd Aelod a oedd y ffigur yn cynnwys hyfforddiant yr oedd yr Aelodau wedi'i gwblhau yn eu hamser eu hunain os nad oeddent yn gallu mynychu'r sesiwn wreiddiol. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog mai dim ond presenoldeb yn y sesiynau a drefnwyd sy'n cael ei gofnodi ar hyn o bryd, ond cytunodd i ymchwilio i brosesau posibl lle gallai Aelodau roi gwybod i'r Swyddogion os oeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant drwy wylio recordiad o'r sesiynau. Cytunwyd bod y dolenni i sesiynau hyfforddiant a recordiwyd yn cael eu storio yn ganolog ar SharePoint yr Aelodau er mwyn i Aelodau newydd a phresennol gael mynediad iddynt yn hwylus.

Roedd diweddariad ynghylch Adolygiadau o Ddatblygiad Personol ac Arfarniadau Perfformiad LIC wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i fynegi eu rhwystredigaeth ynghylch y diffyg adborth gan LIC yn dilyn cyflwyno eu harfarniadau. Cytunodd y Prif Weithredwr i gysylltu â LIC i ddeall y broses unwaith bod yr arfarniadau wedi'u cyflwyno. O ran y Datblygiad Personol, trafodwyd y nifer isel o'r Aelodau oedd wedi cymryd rhan, ac awgrymodd yr Aelodau ffyrdd y gellid annog cyfranogiad megis rhoi enghreifftiau ac awgrymiadau o'r opsiynau hyfforddi sydd ar gael ar y ffurflen, a chynnal cyfweliadau byr yn hytrach na defnyddio ffurflen.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y lefelau isel o bresenoldeb ar y Teithiau Astudio, ac awgrymodd efallai y byddai angen i'r Awdurdod ystyried model gwahanol i ennyn presenoldeb. Mewn ymateb, awgrymodd Aelod y dylid seilio'r Teithiau Astudio ar thema benodol gyda chanlyniadau dysgu clir, gan y gallai hynny annog cyfranogiad, a nodwyd hyn gan y Swyddogion.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion ynghylch Polisi Teithio yr Awdurdod ar gyfer Aelodau ac yn egluro, yn dilyn cais gan rai Aelodau i'r polisi gael ei adolygu, bod y Swyddogion wedi dod i'r casgliad bod y polisi yn addas i'r diben. Er gwaethaf yr asesiad hwn, cyflwynwyd y polisi hefyd i'r Pwyllgor er mwyn i'r Aelodau ei ystyried. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylai'r polisi gael ei adolygu gan yr holl Aelodau a'i ystyried gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Rhagfyr 2024. Cytunodd y Swyddog i roi dyddiad cau ar gyfer derbyn ymateb i ganiatáu i sylwadau'r Aelodau gael eu coladu cyn cyfarfod mis Rhagfyr. Ychwanegodd Aelod y byddai angen ystyried hawliadau teithio mewn cerbydau trydan fel rhan o'r adolygiad polisi, a nodwyd hyn.

**Nodwyd.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Pobl a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2025 heb eu diwygio.